**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (151)**
**Dydd Mawrth, 12 Gorffennaf 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

## Eitem 1

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Y Cwestiynau

.......................................

## Eitem 2

**Datganiad Busnes**
Y Datganiad Busnes Drafft

.......................................

**Datganiad gan y Prif Weinidog: Yr Ymosodiadau Terfysgol Diweddar**

.......................................

## Eitem 3

**Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor ar Ysmygu Mewn Mannau Cyhoeddus**

.......................................

## Eitem 4

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 3) 2005**

**NDM2537 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 3) 2005 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mehefin 2005.

**NDM2538 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 5 Gorffennaf 2005 mewn perthynas â Gorchymyn drafft Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 3) 2005; ac

2. Yn cymeradwyo y gwneir Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 3) 2005 yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mehefin 2005.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 3) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Pwyllgor 2005 y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru)(Gorchymyn Cychwyn Rhif 3)

.......................................

*Cynnig i drafod y 3 eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân*

## Eitem 5

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Symud ar draws Ffin) (Cymru) 2005**

**NDM2539 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Symud ar draws Ffin) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin 2005.

**NDM2540 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mehefin mewn perthynas â Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Symud ar draws Ffin) (Cymru) 2005 drafft; ac

2. Yn cymeradwyo y gwneir Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Symud ar draws Ffin) (Cymru) 2005 yn unol â'r:

a) drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin 2005; a'r

b) Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2005.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Symud ar draws Ffin)(Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

**.......................................**

## Eitem 6

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol)(Diwygio)(Cymru) 2005**

**NDM2541 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonoynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin 2005.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1+2)**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Nodi, gyda phryder, diffyg diffiniad priodol o niwed o fewn Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Eneteg (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn credu y dylai atebolrwydd o ran halogiad o ffynonellau GM fod yn seiliedig ar yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu.

**NDM2542 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mehefin mewn perthynas â Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2005 drafft; ac

2. Yn cymeradwyo y gwneir Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2005 yn unol â'r:

a) drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin 2005; a'r

b) Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2005.

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.....................................

## Eitem 7

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Holrhain a'u Labelu) (Cymru) 2005**

**NDM2543 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig ((Eu Holrhain a'u Labelu)

(Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mehefin 2005.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw am sefydlu trothwy ar gyfer nodi halogiad GM mewn cynnyrch di-GM yn ôl y gyfradd canfod isaf posibl.

**NDM2544 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd i aelodau'r Cynulliad ar 5 Gorffennaf 2005 mewn perthynas â Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig ((Eu Holrhain a'u Labelu) (Cymru) 2005 drafft; ac

2. Yn cymeradwyo y gwneir Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig ((Eu Holrhain a'u Labelu) (Cymru) 2005 yn unol â'r:

a) drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mehefin 2005

b) Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mehefin 2005

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig ((Eu Holrhain a'u Labelu) (Cymru) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.......................................

## Eitem 8

### Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2005

**NDM2545 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mehefin 2005.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1+2)**

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Gweinidog i gyhoeddi dadansoddiad o’r effeithiau trawsffiniol yn sgîl gweithredu’r broses o gyflwyno presgripsiynau am ddim yng Nghymru.

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth y Cynulliad i anrhydeddu ei ymrwymiad yn sgîl cynnig NDM1283 i flaenoriaethu presgripsiynau am ddim i’r rheini sy’n dioddef cyflyrau cronig.

**NDM2546 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at aelodau’r Cynulliad ar 5 Gorffennaf 2005 mewn perthynas â Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2005 drafft; ac

2. Yn cymeradwyo y gwneir Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2005 yn unol â’r:

a) drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mehefin 2005; a’r

b) Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mehefin 2005

Dogfennau Ategol
Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio)

(Rhif 2) 2005
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

**......................................**

## Eitem 9

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.27 (iv) Reoliadau Addysg (Adolygu Strwythur Staffio) (Cymru) 2005**

**NDM2547 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Addysg (Adolygu Strwythur Staffio) (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 5 Gorffennaf 2005.

**NDM2548 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo y gwneir Rheoliadau Addysg (Adolygu Strwythur Staffio) (Cymru) 2005 yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Gorffennaf 2005.

*Noder: Ni osodir Adroddiad y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, gan fod y gofynion trefniadol wedi'u datgymhwyso gan Gabinet y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).*

Dogfennau Ategol
Rheoliadau Addysg (Adolygu Strwythur Staffio) (Cymru) 2005

**......................................**

## Eitem 10

**Cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog**

**NDM2549 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheolau Sefydlog 37.1 a 37.4:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes i ddiwygio Rheolau Sefydlog, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 5 Gorffennaf 2005;

2. Yn cytuno i ddiwygio Rheolau Sefydlog fel y nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Busnes; ac

3. Yn cytuno y bydd y diwygiadau i Reolau Sefydlog a nodwyd yn Atodiad D yr adroddiad yn peidio â bod yn weithredol ar 14 Mehefin 2006.

Dogfennau Ategol
Adroddiad y Pwyllgor Busnes - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

* ***Mae'r cynnig uchod yn cynnwys y cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog dros dro i ganiatáu dirprwyon ar gyfer y Pwyllgor Cynghorol ar Ariannu Ysgolion, fel ag a nodwyd yn y Rhagolwg ar 5 Gorffennaf 2005.***

.......................................

**Cynnig i ohirio'r Rheolau Sefydlog**

**NNDM2554 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 37.5 a 37.6:

1. Yn atal Rheol Sefydlog 6.13 a'r rhan honno o Reol Sefydlog 5.4 sy'n mynnu bod y Datganiad Busnes wythnosol yn cynnwys yr amserlen y cytunwyd arni ar gyfer busnes y Cynulliad yn yr wythnos ganlynol, fel y gellir ystyried NNDM2553 – sy'n cynnig newidiadau i Reol Sefydlog 19 – yn y Cyfarfod Llawn dydd Mawrth 12 Gorffennaf; a;

2. Yn atal Rheol Sefydlog 6.14 fel y gellir ystyried unrhyw welliant i NNDM2553 a gyflwynir cyn 11am dydd Mawrth 12 Gorffennaf yng Nghyfarfod Llawn dydd Mercher 12 Gorffennaf 2005.

.......................................

**Adolygu'r Rheolau Sefydlog**

**NNDM2553 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 37.1:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 11 Gorffennaf 2005; ac

2. Yn cytuno i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel yr amlinellir yn adroddiad y Pwyllgor Busnes.

Dogfennau Ategol
Adroddiad y Pwyllgor Busnes - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.......................................

## Eitem 11

### Dadl ar Adroddiad Blynyddol Cynllun y Sector Gwirfoddol

**NDM2536 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r camau a gymerwyd i weithredu Cynllun y Sector Gwirfoddol yn ystod y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2005 ac yn cytuno i gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

**(1)**
**(2+3)**

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn croesawu'r cyfraniad y mae Arian Ewropeaidd wedi'i wneud i'r sector gwirfoddol yng Nghymru ac yn galw ar y Gweinidog i nodi pa gamau gweithredu sydd ar y gweill i sicrhau nad yw gweithgareddau'r sector gwirfoddol yn dioddef yn sgîl y gostyngiad a ragwelir o ran arian o'r fath.

**Gwelliant 2 - David Melding (Canol De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Cydnabod cyflawniadau'r sector gwirfoddol yng Nghymru o ran helpu i ddarparu nifer o wasanaethau cyhoeddus allweddol, a'r rôl hanfodol sydd ganddo yn y gwaith o lunio polisïau cyhoeddus.

**Gwelliant 3 - David Melding (Canol De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod yr amhariadau a achoswyd i'r sector gwirfoddol yn sgîl defnyddio cyllid afreolaidd yn hytrach na chyllid cynaliadwy i ddiwallu anghenion y gwasanaethau y cytunwyd arnynt.

Dogfennau Ategol
*Ebostiwyd copïau o 'Adroddiad Blynyddol Cynllun y Sector Gwirfoddol 2004-05' at Aelodau'r Cynulliad ar 5 Gorffennaf 2005* - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.....................................

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

.....................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mercher, 13 Gorffennaf 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**